# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Tŷ Cwm Gwendraeth**

**Tŷ Cwm Gwendraeth**
**Heol Llan-non**
**Y Tymbl Uchaf**
**Llanelli**
**SA14 6BU**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

10/09/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Tŷ Cwm Gwendraeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | TY CWM GWENDRAETH LIMITED |
| Lleoedd cofrestredig | 49 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 7 Chwefror 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yng ngwasanaeth Tŷ Cwm Gwendraeth yn cael eu cefnogi gan dîm o staff sy'n cael ei arwain yn eithriadol o dda. Mae'r tîm rheoli'n meithrin diwylliant cadarnhaol lle mae'r staff gofal yn angerddol ac yn ymrwymedig i gefnogi unigolion i fyw y bywyd gorau posibl. Mae'r tîm o staff yn frwdfrydig dros ben ac yn cael eu cefnogi'n dda. Maent yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau a chânt eu hannog i ddefnyddio llinellau datblygu clir yn y cwmni.

Mae'r cynlluniau personol yn cael eu llunio gyda'r unigolion a'r bobl sy'n ymwneud â'u gofal. Maent wedi'u teilwra i'w hanghenion a'u dewisiadau penodol ac maent yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig iddynt. Gall unigolion wneud pethau sydd o ddiddordeb iddynt yn y gwasanaeth ac yn y gymuned.

Mae trefniadau clir ar waith ar gyfer goruchwylio a llywodraethu'r gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn gweithredu ar y gwelliannau a awgrymir i wella'r gwasanaeth.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau bob dydd. Mae'r cofnodion gofal yn cynnwys gwybodaeth fanwl am hanes bywyd y bobl, a'u dewisiadau a'u dyheadau. Cânt eu hadolygu â'r unigolion a/neu'r bobl sy'n bwysig iddynt. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn rheolaidd a bod ganddynt lais. Gall y bobl ddewis ble i dreulio eu hamser. Mae cerbydau â gyrrwyr dynodedig ar gael i fynd â'r bobl i'r gymuned i fwynhau gweithgareddau ar eu pen eu hunain neu i gwrdd â theulu a ffrindiau. Yn y gwasanaeth, mae yna ardaloedd preifat ac ardaloedd cymunedol lle gall y bobl gymdeithasu, ac ardaloedd synhwyraidd i'r bobl fwynhau. Mae'r dewisiadau bwyd yn dda iawn, gyda bwydlenni ar gael i adlewyrchu hoff bethau'r bobl a'u dewisiadau. Caiff anghenion deietegol y bobl eu diwallu gan dîm arlwyo sy'n ymrwymedig i roi'r prydau a'r byrbrydau o'u dewis iddynt drwy gydol y dydd. Caiff anghenion unigol eu diwallu a chaiff achlysuron arbennig fel penblwydd eu cydnabod.

Gall y bobl gael eu gwasanaeth yn Gymraeg os byddant yn dymuno hynny. Gall rhai aelodau o'r staff siarad Cymraeg a gellir cyfieithu dogfennau os bydd angen. Caiff diwylliannau amrywiol eu dathlu gyda nosweithiau cymdeithasol lle caiff pawb wahoddiad i ddysgu am wahanol ddiwylliannau'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth.

Caiff y bobl eu cefnogi i reoli eu hiechyd a'u llesiant corfforol. Mae gan y ganolfan gymdeithasol/hwb gyfleusterau rhagorol i alluogi'r bobl i gwrdd â'u teulu a'u ffrindiau. Mae swyddogion gweithgareddau dynodedig yn gweithio ym mhob rhan o'r gwasanaeth, sy'n frwdfrydig am gefnogi'r bobl i wneud pethau sy'n bwysig iddynt. Caiff gweithgareddau grŵp eu trefnu ond caiff y bobl eu cefnogi â'u diddordebau unigol hefyd. Caiff cysylltiad â theuluoedd a ffrindiau ei annog ac mae'n effeithiol wrth hyrwyddo a chynnal yr uned deuluol. Cânt wahoddiad i achlysuron cymdeithasol ac maent yn cael y wybodaeth ddiweddaraf gan y tîm o staff am newidiadau i anghenion iechyd a llesiant. Mae'r tîm rheoli a'r staff yn mynd ati i chwilio am gyfleoedd a phrofiadau newydd i'r bobl i wella eu bywydau. Caiff atgyfeiriadau eu gwneud at weithwyr iechyd proffesiynol mewn modd amserol, ac mae'r bobl yn derbyn meddyginiaethau fel y'u rhagnodwyd.

Caiff y bobl eu cadw mor ddiogel â phosibl. Mae'r arferion recriwtio yn gadarn, ac mae'r cofnodion gofal yn fanwl ac yn cael eu cadw'n ddiogel. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i anghenion y bobl y maent yn rhoi cymorth iddynt. Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch eu cwblhau ar gyfleusterau a chyfarpar yn y gwasanaeth. Dim ond unigolion ag awdurdod sy'n cael mynediad, a rhaid i bobl ganu cloch y drws i gael mynediad.

.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl sy'n byw yng ngwasanaeth Tŷ Cwm Gwendraeth yn derbyn gofal a chymorth o safon uchel iawn gan dîm o staff sy'n ymrwymedig i sicrhau bod y bobl yn cael y cymorth cywir i gyflawni eu canlyniadau a'u dyheadau. Mae'r sylwadau gan y staff yn cynnwys, *"it's rewarding to see people we support accessing the community regularly"* ac *"we take pride in what we do for the people we support*". Mae'r lefelau staffio yn dda, sy'n golygu bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt pan fyddant am eu cael, gan gynnwys mynd allan i'r gymuned neu fynychu apwyntiadau iechyd. Mae'r tîm o staff yn dda iawn yn chwilio am wahanol strategaethau a phrofiadau a fydd yn helpu i wella llesiant y bobl, a gwnaethant siarad yn angerddol â ni am hyn. Maent yn gweithio'n galed i ddiwallu anghenion hynod gymhleth ac amrywiol y bobl a gwelsom ganlyniadau cadarnhaol o'r ymyriadau hyn. Mae'r staff gofal yn gweithio ar draws y gwasanaeth cyfan ac yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i anghenion y bobl sy'n cael cymorth. Gwnaethant ddweud wrthym fod hyn yn gwella eu sgiliau ac yn eu galluogi i ddod i adnabod y tîm ehangach.

Mae'r cofnodion gofal yn dangos bod y tîm rheoli'n ystyried gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau cyn i unigolion symud i mewn i'r gwasanaeth. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn gallu rhoi'r cymorth sydd ei angen ar unigolion ac yn eu helpu i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r wybodaeth mewn cynlluniau personol ac asesiadau risg yn gyson dda, sy'n galluogi'r staff i fod yn ymwybodol o daith y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, yr hyn sy'n bwysig iddynt, a sut i hybu eu hannibyniaeth gymaint â phosibl, tra hefyd yn eu cadw'n ddiogel. Maent wedi'u dylunio gan gynnwys y bobl ac mewn ffordd sydd wedi'i theilwra at eu canlyniadau personol. Caiff cofnodion gofal eu cadw'n electronig a gall y staff gael gafael arnynt. Cânt eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol, gan adlewyrchu unrhyw newidiadau i anghenion gofal.

Caiff y bobl eu cefnogi i aros mor iach â phosibl. Caiff atgyfeiriadau prydlon eu gwneud at weithwyr iechyd proffesiynol pan fo angen. Mae gan y darparwr ei dîm ei hun o weithwyr proffesiynol, gan gynnwys tîm rheoli ymddygiadol, ffisiotherapyddion a therapydd galwedigaethol cadarnhaol. Mae hyn yn golygu y gellir cael mewnbwn yn gyflym i gefnogi anghenion y bobl sy'n newid, a gellir rhannu gwybodaeth i hyrwyddo arferion da ar draws y sefydliad. Dywedodd aelod o'r staff wrthym, "*Working alongside the therapy team and the drivers allows the people we support to have the best outcome".* Caiff meddyginiaeth ei rheoli'n dda. Ymchwilir i unrhyw wallau'n gyflym er mwyn dysgu gwersi i wella'r gwasanaeth. Mae polisïau mewn perthynas â meddyginiaeth ar waith i arwain y staff.

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth cymaint â phosibl. Mae'r tîm o staff wedi cwblhau hyfforddiant ac mae polisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith i helpu'r staff i ddeall eu cyfrifoldebau i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed. Yn ddieithriad,

dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y tîm rheoli sydd bob amser ar gael i roi cyngor.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n addas ar gyfer eu hanghenion unigol. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli mewn darn mawr, agored o dir, sy'n cynnwys pump uned unigol, a phob un yn cynnwys cegin ac ystafell ymolchi. Ceir ardaloedd i'r bobl gymdeithasu ond hefyd llefydd lle gall y bobl gael amser tawel, gan gynnwys ystafell synhwyraidd yr unedau, sy'n hybu llesiant y bobl. Mae pob uned ond un yn darparu llety ar y llawr daear, ac mae ganddynt goridorau sy'n cynnig mynediad annibynnol at holl ardaloedd priodol y gwasanaeth. Mae un o'r unedau wedi'i rhannu'n fflatiau unigol, sy'n rhoi ymdeimlad o fyw yn annibynnol i'r bobl. Mae gan yr ystafelloedd ymolchi a'r ystafelloedd gwely gyfarpar i gefnogi'r bobl gyda nam ar eu symudedd. Caiff hyn ei gynnal a'i gadw'n rheolaidd, ac mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant i gadw'r bobl mor ddiogel â phosibl. Caiff ystafelloedd gwely'r bobl eu haddurno a'u personoli i safon uchel iawn gydag eitemau sy'n bwysig iddynt ac i sicrhau eu cysur.

Mae gan bob uned erddi diogel sy'n gallu agor i ardal ehangach, lle caiff digwyddiadau cymdeithasol eu cynnal. Mae hyn yn galluogi pawb i ymuno a chymdeithasu â'i gilydd a gyda theulu a ffrindiau. Anogir y bobl i helpu i ddylunio a chynnal a chadw'r gerddi. Gwelsom welyau blodau uchel sy'n galluogi'r bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn i blannu blodau a llysiau. Mae yna ganolfan gymdeithasol sy'n cynnwys pwll hydrotherapi, caffi/bar ac ystafell adloniant. Mae'r ardal hon yn effeithiol wrth ddod â'r bobl ynghyd i greu ymdeimlad o gymuned. Mae'r bobl yn treulio amser yn gwneud pethau y maent yn eu mwynhau; mae'r gofod yn galluogi teuluoedd i dreulio amser gwerth chweil gyda'i gilydd.

Mae mesurau ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn lân ac yn daclus. Mae gwasanaethau golchi dillad ar gael ar bob uned. Dywedodd y staff domestig wrthym eu bod yn falch o'r gwaith y maent yn ei wneud ac yn ymrwymedig i sicrhau safon dda o lendid ar gyfer y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau, a chaiff pob deunydd COSHH (Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd) eu storio'n gywir. Mae cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael yn hawdd.

Mae gan y darparwr systemau iechyd a diogelwch ar waith i amddiffyn y bobl. Cynhelir gwiriadau rheolaidd o gyfarpar a chyfleusterau, gan gynnwys gwiriadau diogelwch tân. Mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelwch tân, fel eu bod yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Mae archwiliadau amgylcheddol rheolaidd yn sicrhau y caiff gwaith ei nodi a'i gwblhau'n brydlon.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Gweithiodd y tîm rheoli yng Nhŷ Cwm Gwendraeth yn galed i feithrin diwylliant cadarnhaol, lle mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Mae hyn yn cael ei ddangos yn eu hymrwymiad i ddarparu'r canlyniadau gorau i'r bobl. Mae sylwadau gan y staff yn cynnwys, "*it's the best place I have ever worked*", *"all staff work together as one big team*" ac "*work life balance is a big bonus working here"*. Mae'r ddau reolwr yn y gwasanaeth yn ymroddedig i wella bywydau'r bobl y maent yn eu cefnogi, ond gan roi'r cymorth cywir i'r staff gofal hefyd. Maent yn eu tro yn canmol y cymorth y maent yn ei gael gan yr Unigolyn Cyfrifol a'r tîm rheoli ehangach. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd. Rhoddir cyfleoedd i'r bobl, eu teulu a'r staff roi eu barn ar ansawdd y gwasanaeth mewn nifer o ffyrdd. Mae hyn yn cynnwys trafodaethau â'r Unigolyn Cyfrifol yn ystod ei ymweliadau, cwblhau arolygon a thrafodaethau dyddiol â'r staff gofal sy'n eu cefnogi. Caiff ansawdd y gwasanaeth ei adolygu'n rheolaidd, ac mae'r cofnodion yn dangos eu bod wedi mynd i'r afael ag unrhyw welliannau a nodwyd yn gyflym.

Mae gwybodaeth am yr hyn y gall pobl ei ddisgwyl gan y gwasanaeth ar gael yn y datganiad o ddiben ac yng nghanllaw'r gwasanaeth. Gellir darparu'r dogfennau hyn yn Gymraeg os bydd y bobl yn dymuno hynny. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi arferion da.

Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm o staff gofal sydd wedi'u hyfforddi a'u cefnogi yn eu rolau. Yn ddieithriad, dywedodd y staff gofal fod y cyfleoedd hyfforddiant yn dda iawn. Mae'r cofnodion a welwyd yn cadarnhau hyn. Mae mesurau ar waith i sicrhau bod y bobl yn derbyn y cyfleoedd a gynigir yn unol â pholisi'r cwmni. Mae'r darparwr yn cefnogi cynnydd a dyrchafu o fewn y cwmni. Caiff hyn ei werthfawrogi gan y staff, gyda sylwadau'n cynnwys, *"the opportunities to grow in the company are fantastic"* a *"there are many opportunities to learn and develop and work along side other teams of professionals".* Rhoddir cymorth i'r staff gofal drwy gyfarfodydd staff yn ogystal â chyfarfodydd cyfrinachol un i un rheolaidd, lle y gellir trafod materion gwaith a materion personol.

Mae'r arferion recriwtio yn helpu i gadw'r bobl mor ddiogel â phosibl. Roedd y cofnodion a welsom yn cael eu cadw'n gyfrinachol. Maent yn cynnwys gwiriadau cyn cyflogi, gan gynnwys cofnodion gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Nid yw'r bobl yn dechrau gweithio hyd nes y bydd yr holl wiriadau gofynnol wedi'u cynnal. Mae'r cofnodion

yn dangos bod y bobl yn cael eu sefydlu'n dda yn y gwasanaeth a chânt eu cefnogi i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 21/10/2024